Cymunedau Digidol Cymru
Hyder Digidol, Iechyd a Lles

Digital Communities Wales
Digital Confidence, Health and Well-being

Darparwyd gan
Delivered by
cwmpas

Rhaglen Llywodraeth Cymru
Welsh Government Programme



# Cynhwysiant digidol ac ariannol: Ble i ddechrau arni wrth gefnogi eraill

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae’r adnoddau hyn wedi’u casglu ynghyd i’ch cefnogi ochr yn ochr â hyfforddiant Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant (CDC).

Rydyn ni wedi cynnwys tudalennau gwe yn y ddogfen hon sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i’ch helpu i gefnogi eraill. Rydyn ni wedi cynnwys y rhain fel dolenni yn y ddogfen hon. Cadwch lygad am y **symbol dolen pinc** y gallwch ei ddewis gyda'ch cyrchwr neu'ch bys i agor a gweld y ddolen.

Os ydych chi’n edrych ar adnodd sydd wedi’i brintio, naill ai teipiwch gyfeiriad y wefan i mewn i borwr gwe neu sganiwch y cod QR i agor y dudalen we.

# Sut i sganio cod QR

1. Agorwch eich ap cod QR ar eich dyfais. Ar lawer o ffonau clyfar modern, defnyddiwch eich camera.
2. Pwyntiwch y camera at y cod QR a gwnewch yn siŵr fod y cod i gyd yn y ffrâm.
3. Edrychwch ar eich sgrin i weld a oes dolen gwefan wedi ymddangos. Os oes, cyffyrddwch ag ef â'ch bys a bydd yn agor y wefan!



# Arweiniad ar gyfer cefnogi cymunedau lleiafrifoedd ethnig

Yn Cymunedau Digidol Cymru, ein nod yw grymuso a rhoi dewis i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael eu cynnwys o ran sgiliau a chymorth digidol. Rydyn ni wedi cydweithio â thîm MoneyHelpers y Gwasanaeth Arian a Phensiynau i gynnig arweiniad am ddim ac i gyfeirio pobl at adnoddau ar-lein defnyddiol. Bydd hyn yn cefnogi cymunedau lleiafrifoedd ethnig gyda'r help digidol ac ariannol sydd ar gael.

Wrth ddysgu unrhyw sgìl newydd, ystyriwch pwy ydych chi'n ei helpu, a'u hanghenion. Os oes angen rhagor o gyngor a chymorth arnoch chi i helpu eraill i fynd ar-lein, cysylltwch â Cymunedau Digidol Cymru.



Wrth gefnogi cymunedau lleiafrifoedd ethnig, mae'n bwysig defnyddio rhwydweithiau dibynadwy o gymorth o fewn y gymuned, sydd â llais a chysylltiad ag unigolion y gallech anelu at eu cefnogi. Bydd y dull hwn yn helpu i gynyddu allgymorth a phontio unrhyw rwystrau i gyfathrebu.

Efallai y byddwch am gael cymorth i nodi rhwydweithiau cymorth cymunedol lleol. Gallech ddefnyddio peiriant chwilio, ac adnabod rhwydweithiau lleol trwy ddefnyddio termau chwilio allweddol fel eich lleoliad a'r rhwydwaith cymorth rydych chi am ei nabod. Mae gan Cymunedau Digidol Cymru hefyd rwydwaith helaeth o sefydliadau cymunedol. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.



## Helpu pobl i fynd ar-lein

Efallai y byddwch mewn sefyllfa i gefnogi eraill i fynd ar-lein. Mae Cymunedau Digidol Cymru yn gallu rhoi cyngor ac arweiniad parhaus i sefydliadau a grwpiau cymunedol i'w cefnogi i helpu eraill i fynd ar-lein.

SGANIWCH FI

**Cysylltwch â ni** am ragor o gyngor.

**https://bit.ly/4dDnIuO**

## Rhwydwaith Cynhwysiant Digidol Cenedlaethol

Mae Cymunedau Digidol Cymru yn gallu rhoi arweiniad am y Rhwydwaith Cynhwysiant Digidol Cenedlaethol, sy'n cael ei gydlynu gan ein sefydliad partner: **The Good Things Foundation.** Mae aelodau'r rhwydwaith hwn yn cael mynediad at y Banc Data Cenedlaethol a'r Banc Dyfeisiau Cenedlaethol. Dyma rwydwaith hanfodol sy'n hwyluso mynediad am ddim at ddata a dyfeisiau i'r rhai sydd eu hangen.

SGANIWCH FI

**https://bit.ly/4e9hl3o**

Learn My Way

## Learn My Way

Mae Learn My Way yn cynnig cyrsiau cryno ar sgiliau digidol i ddysgwyr. I ddarganfod mwy, ewch i: **www.wales.learnmyway.com**

# Gwasanaethau HelpwrArian

Mae HelpwrArian yn cydgysylltu canllawiau ar gyfer arian a phensiynau i'w gwneud hi'n gyflymach ac yn haws dod o hyd i'r cymorth cywir. Mae HelpwrArian yn dwyn ynghyd a chefnogaeth a gwasanaethau tri darparwr sy’n cynnig arweiniad ariannol ac sy’n cael eu cefnogi gan y llywodraeth: y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau a Pension Wise.

SGANIWCH FI

https://bit.ly/3YeEBrf

O hafan gwefan HelpwrArian, gallwch archwilio sawl pwnc gwahanol am arweiniad pellach, o ganllawiau ar gyfer gwahanol fudd-daliadau ac arian bob dydd, i offer penodol ar gyfer pensiynau neu i gefnogi bywyd teuluol.

# Canllawiau ar-lein

Os ydych chi’n cefnogi eraill, mae gan HelpwrArian wasanaeth ar-lein sy'n cynnig y dogfennau canllaw diweddaraf, p'un a ydych chi’n unigolyn, yn sefydliad neu'n fusnes masnachol. Gallwch gysylltu â nhw i ddarganfod gwahanol opsiynau hygyrch o ran arweiniad.

SGANIWCH FI

https://bit.ly/4dl8Ocm

# Offer defnyddiol ar-lein ar gyfer cymunedau lleiafrifoedd ethnig

## Arian bob dydd

Mae gan wefan HelpwrArian nifer o offerynnau defnyddiol i'ch cefnogi chi i reoli arian bob dydd.

SGANIWCH FI

**http://bit.ly/4ejLjRK**

Yn yr adran arian bob dydd, cyfrifiannell ar-lein yw’r **cynllunydd cyllideb** sy'n eich galluogi i fewnbynnu eich mewndaliadau a'ch treuliau i'ch helpu i gadw golwg ar ble mae'ch arian yn cael ei wario. Gallwch lawrlwytho'ch canlyniadau i'ch dyfais neu eu storio ar y cwmwl: **https://bit.ly/48vbnry**

## Byw ar incwm gwasgedig

Cyngor ar sut i wneud i'ch incwm fynd ymhellach, gan gynnwys gwybodaeth am gyllidebu, arbed arian ar filiau cartref a llawer mwy.

SGANIWCH FI

**https://bit.ly/4hvIfUC**

## Blaenoriaethydd Biliau

Mae’r Blaenoriaethydd Biliau yn gallu eich helpu i ddeall a blaenoriaethu eich biliau.

SGANIWCH FI

**https://bit.ly/4axyKSz**

# Pension Wise

Mae Pension Wise yn wasanaeth y Llywodraeth gan HelpwrArian sy’n cynnig arweiniad diduedd a rhad ac am ddim i bobl dros 50 oed am eu hopsiynau pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Ta waeth pa mor fawr neu fach yw eich cronfa bensiwn.

SGANIWCH FI

**https://bit.ly/4dCT8kX**

**Byddwch yn cael arweiniad arbenigol ar gyfer eich pensiwn sydd fel arfer yn cymryd hyd at awr dros y ffôn neu'n lleol i chi.**

Pwy all Pension Wise ei helpu?

- Os ydych chi’n 50 oed neu hŷn
- Eisiau gwneud synnwyr o'ch opsiynau
- Neu â phensiwn personol neu bensiwn cyfraniad diffiniedig gweithle

Dyma rai o’r offer a’r cyfrifianellau sy’n fannau da i ddechrau ohonyn nhw ar gyfer trafodaethau am bensiynau:

- Cyfrifiannell pensiynau - **https://bit.ly/3zHmalH**
- Darganfod eich math o bensiwn - **https://bit.ly/3A3pEyO**
- Dod o hyd i gynghorydd ar ymddeol - **https://bit.ly/3Nimryt**

# Budd-daliadau

Mae HelpwrArian yn darparu arweiniad i unigolion ynghylch budd-daliadau. Gall eu cyfrifiannell budd-daliadau eich hysbysu ynghylch a allech hawlio budd-daliadau neu gymorth ychwanegol.

SGANIWCH FI

**http://bit.ly/40uTwiy**

Ceir nifer o erthyglau canllaw defnyddiol sy'n ymwneud â budd-daliadau, gan gynnwys:

- Budd-daliadau os oes gennych blant;
- Budd-daliadau os ydych yn sâl, yn anabl neu'n ofalwr;
- Budd-daliadau yn ddiweddarach mewn bywyd;
- Budd-daliadau a gwaith;
- Budd-daliadau i helpu gyda chostau tai;
- a phroblemau gyda budd-daliadau.

SGANIWCH FI

**http://bit.ly/4e5R8Sw**

Egluro Credyd Cynhwysol: **https://bit.ly/4fdBbLC**

Credyd Cynhwysol a thalu rhent: **https://bit.ly/3AoBELx**

Faint o rent y gallwch ei fforddio: **https://bit.ly/3CbbTiw**

Sut i wella eich sgôr credyd: **https://bit.ly/40rvJQw**

# Offer cyfieithu

Mae gan borwyr gwe poblogaidd ategion cyfieithu y gallwch chi eu defnyddio i gyfieithu testun gwefan yn awtomatig i'ch dewis iaith.

**Arweiniad ar Google Chrome**

SCAN ME

**https://bit.ly/4hmgoGm**

**Arweiniad ar Microsoft Edge**

SCAN ME

**https://bit.ly/4jkW75t**

Mae'r offer cyfieithu hyn wedi'u hymgorffori yn Chrome neu Edge, felly gallwch chi ddechrau eu defnyddio ar unwaith!

Mae apiau cyfieithu hefyd yn boblogaidd. Maen nhw'n gallu hwyluso sgyrsiau dwy ffordd rhwng pobl, a hyd yn oed gyfieithu testun ar ddogfennau pwysig gan ddefnyddio camera eich dyfais.

Yn siop apiau eich dyfais, chwiliwch am apiau cyfieithu poblogaidd fel:

- Microsoft translator
- Google Translate.

# Cysylltwch â ni



I gael cymorth neu arweiniad pellach, gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau. Mae eu tudalen gyswllt ar eu gwefan yn rhoi llawer o opsiynau o ran gwahanol adrannau y gallwch gysylltu â nhw, a gwahanol ffyrdd o gysylltu hefyd: **https://bit.ly/3zNDNAj**

Gallwch ffonio'r rhifau canlynol os hoffech chi wybod unrhyw beth am y pynciau hyn:
Arweiniad ariannol - **0800 138 0555**
Arweiniad ar bensiwn - **0800 756 1012**

# Beth nesaf?

I ddysgu mwy am ein cefnogaeth, cysylltwch â ni:

https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/cysylltu-a-ni/

0300 111 5050

Dewch o hyd i ni ar

Mae Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru a ddarperir gan Cwmpas. Mae Cwmpas, a elwid gynt yn Ganolfan Cydweithredol Cymru, yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.